Dysgu Creadigol
Creative Learning
Cymru

# Arbenigo: Rhaglen Arweinyddiaeth Greadigol

## Cyfle wedi'i ariannu i ymuno â'r Rhaglen Arweinyddiaeth Greadigol, partneriaeth rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru

**Dyddiad cau: 12 pm 22 Hydref 2025**

Ydych chi'n arweinydd ysgol sy'n awyddus i gael cefnogaeth i ddefnyddio ffyrdd arloesol a chreadigol i fywiogi'r cwricwlwm newydd mewn ffyrdd dilys a deniadol i'ch disgyblion? Ydych yn barod i gynyddu eich sgiliau arwain yn eich ysgol? Hoffech gael yr amser i roi cynnig ar wahanol ffyrdd o addysgu a dysgu yn eich ysgol i asesu beth sy'n ennyn diddordeb eich disgyblion? Ydych wedi'ch llethu gan faint o newid sydd yn y system addysg ar hyn o bryd? Hoffech gael cyfaill beirniadol i'ch helpu i wneud synnwyr o'r cyfan?

**Mae Cyngor Celfyddydau Cymru mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru** yn falch o ail-lansio cyfle cyffrous i reolwyr canol/uwch-reolwyr ysgol i gefnogi nhw i ddatblygu arweinyddiaeth greadigol yn eu hysgol.

Nod y rhaglen yw annog hyder mewn ffyrdd newydd o weithio, arloesi, meddwl a bod yn wydn a datblygu dealltwriaeth hefyd o greadigrwydd yng nghyd-destun y Cwricwlwm i Gymru, y pedwar diben a'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arwain. O fewn y rhaglen, bydd cyfranogwyr yn cael eu hannog i feddwl yn onest am eu harferion a'u cyd-destun proffesiynol a nodi'r rhwystrau a allai amharu ar eu gallu i ddod yn arweinwyr creadigol.

Mae'r rhaglen wedi'i theilwra i gam dilyniant presennol pob cyfranogwr yn eu gyrfa arweinyddiaeth broffesiynol. Bydd yn ymaddasu i ddiwallu eich anghenion chi. Ni ddylai fod rhywbeth ychwanegol i'w wneud yn eich bywyd ysgol prysur o ddydd i ddydd. Dim byd i'w golli ond llawr i'w ennill! Mae ein model yn seiliedig ar dystiolaeth am ddysgu proffesiynol effeithiol a chanllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru. Mae'n seiliedig hefyd ar y model pedair elfen o chydweithio, ymarfer meddylgar, hyfforddi a defnyddio data a thystiolaeth ymchwil.

Canolog hefyd yw'r themâu allweddol o ddysgu drwy brofiad, cyfoethogi a datblygu sgiliau creadigol. Maent yn cael eu cydnabod fel ffactorau allweddol wrth weithredu'n llwyddiannus y Cwricwlwm i Gymru.

**Bydd y broses yn dechrau wrth i Gyngor Celfyddydau Cymru hwyluso hyfforddiant deuddydd wyneb yn wyneb.** Bydd yn gyfle dysgu dwys o brofiad â phwyslais ar ymarfer meddylgar.

Yn dilyn y cwrs deuddydd, bydd pob arweinydd yn cychwyn ar raglen ddatblygu 23-26 wythnos. Bydd yn cael ei baru ag Asiant Creadigol a fydd yn gweithredu fel hyfforddwr arweinyddiaeth greadigol a chyfaill beirniadol. Bydd y rhaglen yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar ymholiad i ddatblygu creadigrwydd cyfranogwyr i greu newid yn eu hysgol a gwneud y canlynol:

- Cyflwyno addysgeg dysgu creadigol i'r cyfranogwyr i feithrin eu hyder i ledaenu'r egwyddorion allweddol i'w staff
- Datblygu dealltwriaeth o bwysigrwydd cydweithio a chyd-adeiladu
- Hybu dealltwriaeth o amgylcheddau dysgu sy'n annog creadigrwydd, meddwl beirniadol a datrys problemau
- Rhannu enghreifftiau o brosiectau dysgu creadigol o'r rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau a'u heffeithiau ar athrawon a disgyblion a'r newid ar ysgol gyfan
- Annog dysgu proffesiynol ac annibyniaeth arweinwyr ysgol drwy ddulliau arbrofol, deialog ac ymarfer meddylgar
- Codi ymwybyddiaeth o leoedd democrataidd lle mae pob llais yn bwysig
- Dangos sut mae dysgu creadigol yn rhan annatod o'r Cwricwlwm i Gymru, y dull cenedlaethol o ddysgu proffesiynol ac ysgolion fel modelau o sefydliadau dysgu.

Mae'n bwysig pwysleisio y bydd y ddarpariaeth hon yn gynnig pwrpasol, wedi'i harwain gan eich ymholiad eich hun am arweinyddiaeth greadigol er y bydd syniadau a dulliau eraill yn cael eu cynnig hefyd. Wrth i'r broses ddatblygu, mater i'r cyfranogwr fydd archwilio a threialu ffyrdd newydd o weithio.

Ar ddiwedd y broses, bydd gofyn i'r cyfranogwyr lenwi gwerthusiad sy'n dangos effaith yr ymholiad ar eu dysgu proffesiynol a'u harweinyddiaeth greadigol a dechrau cynllunio eu camau nesaf.

***Byddwn yn croesawu'n arbennig datganiadau o ddiddordeb gan ymgeiswyr o gefndiroedd diwylliannol ac ethnig amrywiol.***

# Sut i ymgeisio

Dyma ffurflen gais:
Rhaglen Arweinyddiaeth Greadigol : 2025-26 - Formstack

Dyddiad cau: 22 Hydref 2025

**Am ragor o wybodaeth, dewch i sesiwn wybodaeth drwy Sŵm**

**Dydd Llun 6 Hydref 3.30-4.30pm**

https://artswales.zoom.us/j/87971122514?pwd=x7Jl0s9BWhVAurUl9ae60JALQI8VLG.1
Cyf.Cyfarfod: 879 7112 2514 Cyfrinair: 530276

**Dydd Llun 13 Hydref 3.30-4.30pm**

https://artswales.zoom.us/j/84578720589?pwd=Xwm22iAEkCPIV5THOnacUJkGtdM38W.1
Cyf.Cyfarfod: 845 7872 0589 Cyfrinair: 001650

**Dydd Mercher 15 Hydref 3.30-4.30pm**

https://artswales.zoom.us/j/81116152179?pwd=sg1as21NtHHUy8rL4ZbOauG4Y2Zt0N.1
Cyf.Cyfarfod: 811 1615 2179 Cyfrinair: 578328

Os byddwch yn llwyddiannus, bydd rhaid mynychu:

| | |
|---|---|
| Hyfforddiant i uwch-reolwyr/rheolwyr canol: | 25 a 26 Chwefror 2025 |
| Digwyddiadau rhwydweithio (ar-lein): | 11 Chwefror a 29 Ebrill 2026 |
| Digwyddiad rhannu: | 10 Mehefin 2026 |

Byddwn yn talu am holl gostau cyflenwi am y dyddiadau yma.

**Sylwch fod presenoldeb ar yr holl ddyddiadau allweddol hyn yn orfodol ac yn amod cyfranogi. Rhaid ichi hefyd ymrwymo i dreulio 4 diwrnod gyda'ch Asiant Creadigol yn ystod y cyfnod.**

Dysgu Creadigol Cymru – Ysbrydoli creadigrwydd, trawsnewid addysg

Cylchlythyr Dysgu Creadigol